# Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

## LGPS(2)-13-06(p.3)

### Dyddiad: Dydd Mercher 4 Hydref 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Y Trefniadau Etholiadol yng Nghymru – Ymateb i'r Ymgynghoriad a'r camau nesaf

#### Pwrpas

1. Darparu dadansoddiad o ganlyniadau ymarfer ymgynghori ysgrifenedig ar Drefniadau Etholiadol yng Nghymru i'r aelodau a gwahodd y Pwyllgor i ystyried y camau nesaf ar gyfer y prosiect craffu.

#### Yr Ymgynghoriad

2. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ysgrifenedig rhwng 2 Mehefin a 4 Medi. Roedd y rhestr bostio yn cynnwys cynghorau tref a chynghorau chymuned, swyddogion gweinyddu etholiadol ac ymarferwyr etholiadol – ceir rhestr o'r ymgyngoreion yn atodiad A.

3. Mae ymgynghoriad electronig hefyd yn cael ei gynnal er mwyn casglu safbwyntiau pobl ifanc ar drefniadau etholiadol yng Nghymru. Cyhoeddwyd bod fforwm drafod ar-lein yn cael ei lansio trwy ddatganiad a gafodd ei anfon at ysgolion, mudiadau ieuenctid a'r cyfryngau. Cynhelir yr e-fforwm rhwng 28 Awst – 30 Medi a bydd adroddiad llawn am y canlyniadau yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor ar wahân.

4. Ymatebodd 68 sefydliad ac unigolyn i'r ymgynghoriad ysgrifenedig. Yn eu plith yr oedd 35 cyngor cymuned, 15 cyngor tref, Cymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned Gogledd Cymru, Un Llais i Gymru, 5 ymarferwr etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, MENCAP Cymru, CEWC Cymru a Phlaid Werdd Ceredigion. Ceir dadansoddiad o'r materion allweddol sy'n dod i'r amlwg yn atodiad B y papur hwn, ac mae crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi ei gynnwys yn atodiad C.

#### Y Camau Nesaf

5. Fel rhan o'r ymgynghoriad, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o sefydliadau ac unigolion, ac ymwelwyd â nifer o wledydd Ewropeaidd eraill i gymharu systemau etholiadol.

6. Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael eu gwahodd i gyfarfod nesaf y

Pwyllgor ar 19 Hydref i drafod sut mae gwleidyddiaeth, y broses ddemocrataidd a dinasyddiaeth yn cael eu dysgu ar hyn o bryd mewn ysgolion yng Nghymru.

7. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig a nodi unrhyw wybodaeth arall yr hoffai ei chael cyn i'r broses casglu tystiolaeth ddod i ben.

8. I ganiatáu amser i Lywodraeth y Cynulliad ymateb i adroddiad terfynol y Pwyllgor cyn diwedd yr Ail Gynulliad, yn unol â'r drefn y cytunwyd arni, awgrymir yr amserlen a ganlyn:

| **Cam gweithredu** | **Dyddiad arfaethedig** |
|---|---|
| Cytuno ar yr adroddiad terfynol yn y Pwyllgor | Erbyn 23 Tachwedd |
| Lansio'r adroddiad dwyieithog a gosod yr adroddiad ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn | Ar neu erbyn dydd Mercher 13 Rhagfyr |
| Dadl ar yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn | Dydd Mawrth 23 Ionawr 2007 |
| Datganiad Ysgrifenedig y Cabinet | Erbyn dydd Mawrth 27 Chwefror 2007 |
| Datganiad Llafar y Gweinidog | Erbyn 6 Mawrth 2007 |
| Cytuno ar Ymateb Terfynol y Llywodraeth | Erbyn 6 Mawrth 2007 |
| Y Pwyllgor yn trafod ymateb terfynol y Llywodraeth yn ei gyfarfod olaf yn yr Ail Gynulliad | Dydd Iau 22 Mawrth 2007 |

## Argymhellion

9. Gwahoddir y Pwyllgor i:

a) nodi canlyniadau'r ymgynghoriad

b) ystyried a ddylid ceisio rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth cyn paratoi adroddiad terfynol ar y prosiect craffu.

c) cytuno ar amserlen ar gyfer yr adroddiad.

Gwasanaethau'r Pwyllgorau ac Ymchwil yr Aelodau